

CEFNDIR Y FERSIWN SIAMBR HWN

Pleser o'r mwyaf i mi yw cyflwyno'r fersiwn siambr newydd hwn o'r opera Gymraeg gyntaf, *Blodwen*, i Mr. John Hywel er cof am y cyfansoddwr Joseph Parry.

Mae hanes fy nghysylltiad â *Blodwen* yn ymestyn yn ôl i'r 1970au pan oeddwn yn fyfyrwr ymchwil yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru (fel yr oedd bryd hynny), Bangor, i fywyd a gwaith Joseph Parry. Arolygydd academaidd f'ymchwil oedd John Hywel, a oedd ar y pryd yn ddarlithydd yn Adran Gerdd y Brifysgol. Roedd John hefyd yn Gyfarwyddwr Gŵyl Gerdd Menai a oedd wedi penderfynu dathlu canmlwyddiant perfformiad cyntaf *Blodwen* gyda pherfformiad cyngerdd o'r opera yn ystod Gŵyl 1978.

Yn gynnar yn 1977, gofynnodd John i mi ymchwilio i ddefnyddioldeb ac ymarferoldeb sgôr gerddorfa wreiddiol *Blodwen*. Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yw cartref llawysgrifau cerddorol Joseph Parry ac wrth archwilio llawysgrif *Blodwen* yno, des i'r casgliad nad oedd y sgôr, fel yr oedd, yn addas ar gyfer perfformiad cyhoeddus. Yn syml, roedd Parry yn well cyfansoddwr na threfnydd offerynnol: roedd ei ddewis o offerynnau ar gyfer y sgôr yn anarferol e.e. gormod o offerynnau pres (o bosib oherwydd mai dyna oedd yr offerynnau oedd ar gael iddo ar y pryd); dim ond ychydig o'r rhannau cerddorfa oedd wedi goroesi ac mae llawysgrifen y copiïdd (nid Parry) yn anodd i'w ddarllen. Yn bwysicaf, mae'r sgôr yn frith o wallau, bylchau a gwadau anaddas – ambell dro yn 'denau' (dim digon o offerynnau) a thro arall yn 'dew' (gormod o offerynnau). Ymddengys i Parry – fel bron ym mhob agwedd o'i waith – weithio ar frys ac fe fyddai perfformiad cyhoeddus o'i sgôr yn dangos gwendidau'r cyfansoddwr ym maes cerddorfaeth.

Er y siom, yr oedd opsiwn arall, sef creu sgôr cerddorfa o'r newydd a fyddai'n seiliedig ar gerddorfaeth Joseph Parry, a dyna a gynigiais i John Hywel gan amcangyfrif y byddai'r gwaith yn cymryd hyd at flwyddyn. Yn wahanol i'r sgôr gwreiddiol, penderfynais ddewis offeryniaeth confensiynol sef dwy fflwt, dau obo, dau glarinet, dau fasŵn, pedwar corn, tri thrwmped, tri thrombôn, offerynnau taro a llinynnau. Roeddwn am sicrhau na fyddai offeryniaeth anarferol fel eiddo Parry yn rhwystro unrhyw berfformiad yn y dyfodol.

Ond daeth tro ar fyd yn ystod yr haf 1977: enillais ysgoloriaeth i astudio cyfansoddi yn y Peabody Conservatory of Music yn Baltimore yn yr Unol Daleithiau. Nid oeddwn am dorri fy ngair i John, felly gyda llungopi anferth o sgôr *Blodwen* dan fy nghesail, gadewais Gymru am flwyddyn o astudio dramor.

Yn Baltimore, sylweddolais yn fuan fod mynydd o waith o'm blaen a faint o amser y byddai'n debygol o gymryd i'w gwblhau. Fy nhrefniant gyda John oedd postio'r sgôr newydd iddo fesul act ac y byddai ef yn trefnu i gopiïdd proffesiynol baratoi rhannau'r gerddorfa. (Heddiw, gellir cyflawni hyn oll dros y we ac yn ddigidol)

O fewn dim, dechreuodd fy ngwaith ar sgôr *Blodwen* 'redeg yn hwyr' ac roedd yn Nadolig 1977 erbyn i fi orffen yr act gyntaf – byddai'n rhaid i mi weithio'n gynt ac yn ddwysach os

oeddwn am gwblhau'r gwaith mewn pryd. Chwarae teg i John, er gwaethaf y pellter mawr rhyngom, arhosodd yn amyneddgar yng Nghymru i'm gwaith gyrraedd. Cefais ambell alwad ffôn ganddo – tipyn o orchest technolegol y dyddiau hynny – ond byth cŵyn am fod 'ar ei hôl hi'. Cwblhawyd yr ail act ym mis Chwefror 1978 sef blwyddyn y perfformiad arfaethedig, a gorffennais y nodyn olaf ar 9^{fed} o Fawrth.

Gan fod brys ar John i dderbyn y drydedd act, y ffordd gyflymaf o'i hanfon ato oedd fel pecyn ar awyren. Cyn i'r inc sychu ar fy llawysgrif, roeddwn yn gyrru i faes awyr rhyngwladol Dulles ger Washington D.C. ac yn taflu'r pecyn bron yn llythrennol ar awyren i groesi'r Iwerydd.

Bu'r ymarferion a'r paratodau ar gyfer perfformio *Blodwen* yn digwydd ers misoedd a chan fy mod yn awyddus i glywed ffrwyth fy llafur, penderfynais yr oeddwn am fod yn bresennol ar y noson fawr, sef 29 Ebrill 1978.

Cyrhaeddais Bangor rai dyddiau cyn y perfformiad er mwyn mynychu'r ymarferion, yn bennaf fel y gallwn ddatrys unrhyw broblemau cerddorol a fyddai'n deillio o'r sgôr newydd – doedd dim llawer, diolch byth. Bu John, yr unawdwyr, côr yr Ŵyl a'r gerddorfa wrthi'n ddyfal yn ymarfer ac roedd ffrwyth eu llafur o'r safon uchaf.

Yn ogystal â statws hanesyddol y perfformiad daeth y newydd cyffrous y byddai'r BBC yn darlledu'r perfformiad yn fyw ar Radio Cymru – clod o'r mwyaf i ymdrechion swyddogion yr Ŵyl. Ond yr oedd *caveat*: am 10 o'r gloch y nos yn brydlon, fe fyddai'r darllediad yn torri i newyddion y BBC ar yr awr, hyd yn oed pe bai'r perfformiad heb ddod i ben.

O ganlyniad, yn ystod y perfformiad, roeddwn i - fel pawb arall a oedd yn ymwybodol o'r *guillotine* darlledol - yn cadw llygad barcud ar y cloc. Er mawr rhyddhad, canwyd nodyn olaf *Blodwen* tua 9:55pm ac ar ôl darlledu rhai munudau o gymeradwyo, toddwyd yn rhwydd i'r newyddion.

Dychwelais ar gwmwl i'r Unol Daleithiau i orffen fy mlwyddyn fel myfyriwr, ac er y byddwn yn profi sawl uchafbwynt cerddorol yno ac yn ystod gweddill fy ngyrfa fel cerddor, erys y perfformiad hwnnw o *Blodwen* yn un o'm prosiectau cerddorol yr wyf mwyaf balch ohonynt.

Ar ôl dychwelyd i Gymru, ceisiais ddarbwylllo Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru i berfformio'r fersiwn newydd hwn o *Blodwen* ... ond yn ofer. Er tegwch i'r cwmni, rhesymau ariannol oedd y prif reswm dros wrthod fy nghais – mae'n wir fod cynhyrchu opera broffesiynol yn eithriadol o ddrud a rhaid sicrhau cynulleidfaoedd niferus mewn theatrau mawr er mwyn sicrhau llwyddiant ariannol.

Felly deuthum i'r casgliad mai'r ateb oedd creu fersiwn newydd - arall - o *Blodwen*, sef sgôr siambr o'r opera, ar gyfer cerddorfa fach (lleiafswm o dri ar ddeg o offerynnwyr) a olygai y gellid cynnal cynhyrchiad mewn theatr lai. Hefyd, roedd yn gyfle i ddisodli 'cyfieithad' Saesneg hen-ffasiwn yr Athro David Rowlands ('Dewi Môn') gyda fersiwn ffonetig o'r libretto gwreiddiol o dan geiriau Cymraeg y sgôr. Bum o'r farn erioed mai yn Gymraeg yn

unig y dylid canu *Blodwen*, a dyma gyfle gwych i sicrhau hynny. Bellach, ni allai cantorion di-Gymraeg honni na allent ganu opera gyntaf Cymru yn yr iaith wreiddiol. Yn olaf, yn ystod perfformiad 1978 o'm sgôr llawn, sylweddolais fod yna agweddau ar yr offeryniaeth nad oeddwn yn hapus â nhw. Byddai creu'r fersiwn siambr newydd yn gyfle i wneud yn iawn am y diffygion hyn.

O safbwynt golygu'r sgôr newydd, gan fod sgôr gwreiddiol Parry mor anwastad ac anghyson o safbwynt manylion cerddorol e.e. prinder neu absenoldeb lliwio, nid wyf wedi nodi mwyafrif helaeth o'm gwaith golygu. Byddai nodi pob newid/addasu/ychwanegu/cywiro ac ati wedi creu gormodedd o fanylion golygu. Yn hytrach, cynhwysir cromfachau golygu [□] mewn manau amlwg neu bwysig yn unig.

Yr wyf hefyd wedi golygu a chyhoeddi'r Sgôr Lleisiol, gan greu fersiwn sy'n fwy ffyddlon i ddymuniadau gwreiddiol Parry. Mae'r copi piano hwn – fel y Sgôr Llawn newydd – yn cynnwys fersiwn ffonetig o'r geiriau Cymraeg.

Gellir cymharu'r Sgôr Lleisiol newydd hwn gyda chopi o argraffiad Snell 1917 o'r Sgôr Lleisiol: imslp.org/wiki/Blodwen, [Op.31 \(Parry, Joseph\)](#) Mae'r wefan hon imslp.org hefyd yn cynnwys enghreifftiau eraill o gerddoriaeth Joseph Parry.

Yn sgil cwblhau'r fersiwn siambr hwn o *Blodwen*, fy ngobaith – a'm breuddwyd – yw y bydd unrhyw gwmni opera bellach mewn sefyllfa i berfformio'r opera Gymraeg gyntaf. Mae'r byd cyfan yn haeddu clywed campwaith Joseph Parry.

D.R.
San Francisco
Medi 2015